Ordinhad 12
Y Senedd

(iii) Os ceir mwy na deg enwebiad, bydd Ysgrifennydd y Senedd yn trefnu cynnal pleidlais o blith pawb a wahoddwyd i gyflwyno enwebiadau, a bydd yr ymgeiswyr sy'n derbyn y nifer uchaf o bleidleisiau yn llenwi'r sedd wag. Ar wahân i'r darpariaethau uchod, trefnir dull yr etholiad yn ôl doethineb Ysgrifennydd y Brifysgol.

(iv) Bydd Ysgrifennydd y Senedd yn cyhoeddi canlyniadau'r etholiad.

(v) Os daw unrhyw sedd yn wag o dan amgylchiadau heblaw'r drefn reolaidd, llenwir hi trwy ddull tebyg i'r uchod. Bydd y sawl a benodir i lenwi sedd a ddaw'n wag dros dro yn gwasanaethu am yr hyn sy'n weddill o'r cyfnod.

(vi) Bydd y tymor gwasanaeth yn dair blynedd, yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf mis Awst ar ôl ei (h)ethol, ac mae cynrychiolwyr y

3.9 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Senedd fydd traean o aelodaeth y pwyllgor (wedi ei dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf), pa un bynnag sydd uchaf.

3.10 Os nad oes cworwm yn bresennol mewn cyfarfod o fewn hanner awr i'r amser a bennwyd, caiff ei ddiddymu os yw'n Gyfarfod Arbennig; os mai Cyfarfod Arferol ydyw, caiff ei ohirio am bythefnos i'r diwrnod hwnnw, i'w gynnal yr un amser ac yn yr un lle, ac, os na fydd cworwm yn bresennol ar yr achlysur hwnnw, caiff ei ddiddymu.

3.11 Gall unrhyw gyfarfod gael ei ohirio i amser a lle a bennir gan y cyfarfod.

4. Gorchmynion Sefydlog

4.1 Mae pŵer gan y Senedd i wneud Gorchmynion Sefydlog ar gyfer rheoli ei ddulliau gweithredu.

4.2 Gall y cyfryw Orchmynion Sefydlog bennu bod angen pleidlais dim llai na dwy ran o dair neu dri chwarter (fel y pennir mewn unrhyw achos neilltuol) yr aelodau sy'n bresennol (wyneb yn wyneb ac yn rhithiol) ac yn pleidleisio ar gyfer eitem neilltuol.

5. Datganiad o'r Prif Gyfrifoldebau

Yn amodol ar ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau, bydd gan y Senedd y pwerau a'r swyddogaethau canlynol, y caiff eu dirprwyo i'r pwyllgorau y mae'n eu sefydlu:

5.1 Goruchwylio a rheoleiddio addysgu ac ymchwil yn y Brifysgol a'r arholiadau a'r asesiadau a gynhelir gan y Brifysgol.

5.2 Gwneud unrhyw Reoliadau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol neu'n ddymunol at ddibenion cyflawni ei swyddogaethau fel y'u diffinnir yn y Siarter.

5.3 Dyfarnu graddau a chymwysterau eraill (yn cynnwys heb gyfyngiad, diplomâu, tystysgrifau, cymrodoriaethau, graddau er anrhydedd, cymrodoriaethau er anrhydedd, aelodaeth ac aelodaeth gyswllt) yn enw Prifysgol Bangor ac/neu ar y cyd â sefydliadau addysg eraill.

5.4 Gyda rheswm da, diddymu graddau a4(hy)-3(w)6( )8(Re)5(ol)-6(i)-5(a/MCID 14/Lang (cy-GB)>BDC BT59.32 8B 1gC